




Chwarae dros Gymru

Newyddion chwarae a gwybodaeth gan y sefydliad cenedlaethol dros chwarae **Haf 2008**



Dathlu 10 Mlynedd! Ariannu ar gyfer Chwarae



www.chwaraecymru.org.uk


Cynnwys

tudalen

Golygyddol	2
Newyddion	3-6
Ariannu – 10 awgrym anhygoel ar gyfer codi arian	7
Y sefyllfa ariannu yng Nghymru	8
Cyfweliad gyda Chyfarwyddwr Plant Mewn Angen yng Nghymru	9
Cronfa Loteri FAWR - edrych tua'r dyfodol	10
Rhaglen Ffordd o Fyw MAWR	11
Cysylltiadau prosiectau isadeiledd Chwarae Plant	11
Adolygiad Chwarae, Gwaith Chwarae a Bwyd	12
Digwyddiadau	13
Aelodau newydd o'r fim	13
Pen-blwydd hapus i'r Venture	13
10 mlynedd o Ddatblygu'r Gweithlu	14
Ariannu hyfforddiant gwaith chwarae	15
Adborth Hyfforddi Hyfforddwyr	15
Achrediad P ³	15
Cofrestru Mud & Sparks® fel nod masnach	15
Chwarae yng Nghymru – 10 mlynedd	16-17
Beth sydd wedi newid mewn chwarae dros y deng mlynedd diwethaf	17
Poster Cymru a Chwarae	18-19

Cyhoeddir Chwarae dros Gymru gan Chwarae Cymru bedair gwaith y flwyddyn.

Cysylltwch â'r Golygydd yn:
Chwarae Cymru, Tŷ Baltig,
Sgwâr Mount Stuart,
Caerdydd CF10 5FH

Rhif ffôn: 029 2048 6050
E-bost: gwybodaeth@chwaraecymru.org.uk
Elusen Gofrestredig Rhif. 1068926

ISSN: 1755 9243

Nid barn Chwarae Cymru o reidrwydd yw'r farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn.

Rydym yn cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi. Nid ydym yn ardstio unrhyw rai o'r cynnyrch na'r digwyddiadau a hysbysebwr yn neu gyda'r cyhoeddiad hwn.

Argraffwyd y cyhoeddiad hwn ar bapur a gynhyrchwyd o goedwigoedd cynaliadwy.

Dyluniwyd ac argraffwyd gan
 Carrick Business Services Cyf.
 Ffôn: 01443 843 520
 E-bost: sales@carrickdesignprint.co.uk

Golygyddol

Eleni yw degfed pen-blwydd Chwarae Cymru fel elusen. I ddweud y gwir 'dyw pen-blwyddi o'r fath yn gwneud dim gwahaniaeth o gwbl i'r gwaith yr ydym yn ei wneud ac i'n huchelgeisiau, ond maent yn rhoi cyfle inni ddatlu llwyddiannau ac i edrych ymlaen i'r dyfodol.

Yn bwysicaf oll, mae'r degfed pen-blwydd yma'n gyfle i ddiolch i bob un sydd wedi ein cefnogi a chydweithio â ni i gyflawni'r nodau yr ydym wedi eu gosod i'n hunain ar ran plant Cymru. Felly, DIOLCH O GALON i bob un a ddaeth ar y siwmai gyda ni – rydym yn sylweddoli na fu'r daith yn un rhywdd bob amser ac rydym yn gwerthfawrogi eich ymroddiad a'ch cyfeillgarwch yn fawr iawn. Diolch i waith caled a dycnwch, rydym wedi sicrhau llwyddiannau nodedig i'w datlu yn ystod y daith, ond fydd y gwaith caled ddim ar ben tan i bob plentyn yng Nghymru gael mynediad bob dydd i gyfleoedd chwarae o safon fel mater o hawl.

Mae'n bosibl y gwnawn symud yn nes at y nod yma gyda'r ymgynghoriad presennol 'Gweithredu ar Diodi Plant'. Bydd Chwarae Cymru'n drafftio ymateb, a hoffem annog pawb sy'n credu bod chwarae'n bwysig i'n cefnogi ... cadwch lygad ar ein gwefan am ragor o fanylion www.chwaraecymru.org.uk.

Mae hon yn un arall o'r adegau hynny pan fo Cymru'n chwarae rhan arweinyddol sylweddol fydd yn ein symud, yn bwyllog ac yn ofalus, tuag at bwynt pan fo'r wlad hon yn le ble y byddwn yn cydnabod ac yn darparu ar gyfer anghenion chwarae pob plentyn.

Ar ddiwedd y 1990au derbyniodd llond dwn o bobl yr her i adfywio Chwarae Cymru, oedd bron â marw, a'i arwain mewn cyfeiriad newydd. Derbyniodd grŵp o ymddiriedolwyr pybyr oedd yn credu'n gryf yn yr angen i gael mudiad cenedlaethol dros chwarae plant yng Nghymru, yr her i ailfywiogi Chwarae Cymru. Roedd y fim gwreiddiol yn cynnwys pedwar ohonom, i gyd wedi ein cyflogi'n rhan amser. Ym 1998, un o'n blaenoriaethau cyntaf oedd cynhyrchu cylchlythyr – rhagflaenydd i'r cylchgrawn hwn.

Mae profiadau diwedd y 1990au i gyd yn ymddangos yn bell yn ôl yn awr ac mae cyflwr chwarae yng Nghymru wedi cael ei weddnewid i'r fath raddau fel bo eraill yn defnyddio ein profiadau ni i hysbysu newidiadau yn eu gwledydd hwythau.

Mae un llywodraeth cyfagos penodol ar hyn o bryd yn ymgynghori ar strategaeth chwarae genedlaethol ac, yn ddiweddar, cyhoeddodd gannoedd o fillynau o bunnoedd o fuddsoddiad mewn chwarae. Beth allen ni yng Nghymru ei wneud â hyd yn oed canran fechan o'r cyllid yma? Wel, cyn inni ei wario fe ddylen ni edrych ar y modd yr ydym yn gwario arian ar chwarae ar hyn o bryd. Ydyn ni'n gwneud y defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael eisoes? Allwn ni ddweud, a'n llaw ar ein calon, ein bod yn rhoi'r cyfleoedd chwarae gorau i blant â'r arian yr ydym yn ei wario ar hyn o bryd? Bydd croeso bob amser i ragor o arian, ond byddai'n drueni i feddwl y byddai'n cael ei wario ar yr 'un hen syniadau', heb edrych ar sut y gallai wneud gwahaniaeth gwirioneddol i blant.

Gan fod cynladwyedd tymor hir mentrau chwarae ar draws y wlad yn dibynnu ar arian, yn y rhifyn hwn rydym wedi cyfuno datliad o chwarae yng Nghymru dros y deng mlynedd diwethaf gyda chipolwg ar sut y byddwn yn rheoli'r coffrau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Yn sicr, mae ymwybyddiaeth o werth chwarae wedi cynyddu dros y ddegawd diwethaf, dewch inni edrych ymlaen at lwyddiannau'r dyfodol a newidiadau gwirioneddol i chwarae ar gyfer plant ym mhobman yng Nghymru.

Mike Greenaway
Cyfarwyddwr, Chwarae Cymru

Diolch i blant Ysgol Eglwys Newydd, Caerdydd am neidio o gwmpas ar gyfer ein lluniau – mae hwythau i gyd yn ddeng mlwydd oed eleni hefyd!

Diolch o galon i bawb a gyfranodd at y cylchgrawn hwn – allen ni ddim ei wneud heboch chi. Mae'r rhifyn hwn o Chwarae dros Gymru, yn ogystal â rhifynnau blaenorol, ar gael i'w llwytho i lawr o adran newyddion ein gwefan ar www.chwaraecymru.org.uk.



Gweithredu ar Fynediad i Chwarae – Ymgynghoriad Tlodi Plant

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ymgynghori ar gynlluniau i osod dyletswydd ar bob asiantaeth cyhoeddus i wneud ac arddangos eu cyfraniad tuag at roi terfyn ar dlodi plant, ymrwymiad allweddol yng Nghytundeb Cymru'n Un.

Nid yw'r strategaeth yma, sy'n torri tir newydd, wedi ei anelu at ddim ond dileu tlodi plant mewn termau ariannol; bydd yn canolbwyntio hefyd ar gwlogi tlodi profiadau – sy'n cynnwys darparu ar gyfer chwarae plant. Am y tro cyntaf, mae llywodraeth cenedlaethol yn cynnig gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol 'i sicrhau mynediad digonol i chwarae ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc'.

Rydym am annog darparwyr chwarae i leisio eu barn yn ystod yr ymgynghoriad. Gall y dyletswydd newydd hwn sicrhau y bydd y diffiniad o 'fynediad digonol i chwarae' yn mynd ymhellach na darparu cyfleusterau chwarae megis ardaloedd chwarae ag offer sefydlog neu brosiectau chwarae wedi eu staffio, trwy gynnwys, er enghraifft, defnydd o dir, ysgolion a chynllunio strydoedd.

Mae'r dyletswydd wedi ei anelu at sefydlogi gwaith sy'n cael ei gefnogi eisoes gan Cymorth, datblygu

dealltwriaeth o chwarae plant a phobl ifanc, archwilio darpariaeth chwarae a chreu strategaethau lleol. Cynigir y bydd gofyn i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol, gyda'r adnoddau sydd ar gael, i unioni diffygion lleol mewn darpariaeth chwarae.

Meddai Jane Hutt, Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau:

'Mae mynd i'r afael â thlodi plant yn gofyn am ymrwymiad gan bob mudiad perthnasol i ddarparu gwasanaethau o safon ac i sicrhau y caiff pob plentyn a pherson ifanc gyfle i gyfranogi'n llawn ym mywyd y gymuned. Byddai'r cynigion hyn yn creu fframwaith deddfwriaethol sy'n unigryw yn y DU.'

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 30 Medi 2008

Gellir llwytho'r ddogfen ymgynghorol i lawr o:

<http://new.wales.gov.uk/consultations/currentconsultation/>

Cynlluniau Unigol ar gyfer Cymru

Ar hyn o bryd mae'r ddau ar hugain o awdurdodau lleol yng Nghymru'n ymgynghori ar eu Cynllun Plant a Phobl Ifanc – newid o gynllunio cyfochrog, wedi ei seilio ar wasanaethau ar wahân ar gyfer plant a phobl ifanc, i agwedd sy'n canolbwyntio ar eu anghenion a'u hawliau ar y cyd mewn cynllun unigol. Mae terfynau'r Cynllun yn ymestyn ar draws wasanaethau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc o'r cynnod cyn geni hyd at 19 mlwydd oed, ynghyd â rhai sy'n gadael gofal hyd at 21 oed (neu'n hyn os yn parhau mewn addysg neu hyfforddiant).

Y Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPHI)

Mae disgwyl i bob CPPHI ymdrin â saith nod craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant, yn unol â'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru. Mae'r pedwerydd nod craidd yn awgrymu y bydd asiantaethau ac unigolion yn gweithio i sicrhau y caiff pob plentyn a pherson

ifanc 'fynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol.'

Bydd y CPPHI yn gweithredu fel sbardun ar gyfer llunio penderfyniadau gweithredol, cynllunio gwasanaethau i'r dyfodol a phatrwm y gwasanaethau. Y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc ym mhob ardal sy'n gyfrifol am ddatblygu a chytuno'r Cynllun hwn fel y datganiad strategol allweddol sy'n amlinellu sut y caiff lles pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw yn yr ardal ei wella. Caiff y Cynlluniau eu mabwysiadu a'u cymeradwyo'n ffurfiol gan yr awdurdodau lleol ar 31 Gorffennaf 2008. Yna, cyhoeddir y Cynlluniau ar wefannau'r awdurdodau lleol a byddant yn dod i rym erbyn mis Medi 2008.

Mae Tîm Datblygu Chwarae Cymru'n gweithio trwy'r 22 Cynllun Unigol sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer ymgynghori ar draws Cymru. Mae'n galonogol i weld bod chwarae, datblygu chwarae a gwaith chwarae'n amlwg iawn yn y mwyafrif o'r dogfennau.



Strategaeth chwarae i Loegr

Cymru oedd ar flaen y gad wrth lansio'r strategaeth chwarae genedlaethol gyntaf yn y DU – nawr mae Loegr am ddilyn ein esiampl. Galwyd 'Fair Play', ymgyngoriad ar y strategaeth chwarae, y ddogfen bolisi chwarae mwyaf arwyddocaol a welodd Lloegr erioed. Ken Ryan o Play England sy'n rhoi amlinelliad cryno inni.



'Fair Play'

Yn 2007 dangosodd 'The Children's Plan' bod llywodraeth Lloegr wedi ymrwymo i ddatblygu strategaeth chwarae genedlaethol ynghyd ag ariannu newydd gan y llywodraeth o £225m dros dair blynedd.

Lansiwyd 'Fair Play' ym mis Ebrill eleni – mae'n cynnwys cynigion pellgyrhaeddol ar gyfer trawsnewid darpariaeth chwarae yn Lloegr.

Mae 'Fair Play' yn cynnwys ymrwymiad i atgyfnerthu'r gweithlu chwarae, gyda chyllid i alluogi 4,000 o weithwyr chwarae i ennill cymhwyster lefel 3 a chamau i hyrwyddo mwy o integreiddio gwaith chwarae yn y gweithlu plant ehangach.

Mae'n arwyddocaol bod 'Fair Play' yn cydnabod nad yw

chwarae ond yn digwydd mewn meysydd chwarae, felly mae'r llywodraeth am i bobl sy'n gwneud penderfyniadau lleol i fod yn ymwybodol o anghenion plant pan fyddant yn cynllunio mannau cyhoeddus, gan roi terfyn ar y diwylliant 'dim gemau pêl' sydd mor aml yn ystyried plant a phobl ifanc fel niwsans. Yn ogystal, caiff canfyddiadau negyddol eraill o blant yn chwarae y tu allan eu targedu gan ymgyrch fydd yn cynyddu ymwybyddiaeth am y cyfraniadau cadarnhaol y mae plant yn eu gwneud i gymunedau.

Dim ond cipolwg yw hyn ar rai o'r cynigion newydd, sydd yn dal yn y cyfnod ymgyngorol, felly mae amser yn dal ar ôl i'r rheini sy'n pryderu am chwarae yn Lloegr i gael dweud eu dweud.

Cewch hyd i'r ddogfen ymgyngori lawn, a gwybodaeth ynghylch sut i ymateb, arlein ar: www.dcsf.gov.uk

Y Comisiynydd Newydd a Chwarae

Tra'n siarad yn ein cynhadledd Ysbyrd Chwarae Antur ym mis Mai, addawodd Comisiynydd Plant newydd Cymru, Keith Towler, y byddai'n cymryd y llyw ar chwarae yng Nghymru dros y saith mlynedd nesaf. Dywedodd y Comisiynydd:

'Mae hon yn flwyddyn bwysig i fy swyddfa i gan ein bod yn cael cyfle i adrodd i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ynghylch agweddau cadarnhaol a negyddol perfformiad Cymru ar hawliau plant – cyfle sydd ond yn codi bob pum mlynedd.

'Penderfynodd pedwar comisiynydd plant y DU, am y tro cyntaf, i ysgrifennu adroddiad ar y cyd i'r Pwyllgor ar sut y mae llywodraeth y DU, a'r llywodraethau datganoledig, yn cyflawni eu oblygiadau ar hawliau plant. Yn yr adroddiad, amlinellir pymtheg maes cyffredin sy'n ein pryderu gan gynnwys hawl plant i chwarae.'

'Byddaf yn teithio i Enefa ym mis Mehefin gyda fy nghyd-gomisiynwyr i drafod gyda'r Pwyllgor ganfyddiadau ein hadroddiad. Yn ystod yr ymweliad byddaf yn arwain ar bum pwnc a byddaf yn trafod rhai o'n argymhellion, gan gynnwys ein awgrymiadau ar sut i fynd i'r afael â'r rhwystrau i hawl plant i chwarae.'

Am fwy o wybodaeth am waith y Comisiynydd Plant, ymwelwch â: www.childcom.org.uk

Gwyrddroi dedfryd Pennaeth

Cafodd dedfryd a dderbyniodd pennaeth am dorri rheoliadau iechyd a diogelwch, yn dilyn marwolaeth disgybl, ei gwyrddroi yn dilyn apêl.

Cafodd James Porter, o Fangor, ei ddedfrydu ar y sail ei fod wedi caniatáu i'r bachgen fod mewn perygl o gael ei anafu, trwy fethu â rhwystro mynediad heb ei oruchwylio i risiau yn yr ysgol. Yn y gwrandawriad barnodd tri barnwr apêl bod y ddedfryd yn un 'annigel'.

Dywedodd un Barnwr, 'Allwch chi ddim sicrhau bod pob plentyn ar y maes chwarae o fewn golwg neu o fewn clyw trwy gydol yr amser, waeth beth fo'r gymhareb goruchwylio.'

Yn y gwrandawriad dywedodd Patrick Harrington CyF, bargyfreithiwr y pennaeth: 'Ni ellir rheoli plant i'r pwynt fel bod pob risg yn cael ei ddileu o'u bywydau bob dydd a thra wrth gwrs bod raid inni eu coleddu a gofalu amdanynt, mae'n rhaid inni ofalu amdanynt yn y byd go iawn.'



Seminar trefnyddion Diwrnod Chwarae

Cynhaliodd Chwarae Cymru un o bedair seminar genedlaethol ar gyfer trefnyddion Diwrnod Chwarae ar faes y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd ym mis Ebrill. Rhoddodd y diwrnod gyngor a gwybodaeth defnyddiol i bobl sydd ynghlwm â chwarae ar bob agwedd o drefnu digwyddiad Diwrnod Chwarae llwyddiannus.



Cafodd y cyfranogwyr gyfle i drafod materion sy'n berthnasol i thema'r Diwrnod Chwarae eleni sef 'risg a chwarae' trwy gymryd rhan mewn sesiynau holi ac ateb agored, cyfres o weithdai a sesiwn ymarferol y tu allan.

Ar y cyfan, bu'r diwrnod yn llwyddiant mawr gydag adborth cadarnhaol iawn, teimlai llawer eu bod wedi derbyn 'pecyn da i weithio ag e' a'i fod wedi rhoi cyfle iddynt 'gyfnewid syniadau a chynghorion gydag eraill ynghylch cefnogi plant i wynebu neu greu risg yn yr amgylchedd chwarae'.



Cynhelir Diwrnod Chwarae ar 6 Awst eleni. Mae'r ymgyrch genedlaethol (sydd bellach yn ei unfed mlwyddyn ar hugain) yn rhoi cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch materion sy'n ymwneud â chwarae, a gwelir miloedd o blant a phobl ifanc yn dod allan i chwarae mewn digwyddiadau a drefnir yn lleol.

Gall unrhyw un drefnu digwyddiad Diwrnod Chwarae neu gymryd rhan yn y dathliadau. Os hoffech drefnu digwyddiad neu ganfod sut y mae Diwrnod Chwarae'n cael ei ddathlu yn eich hardal leol a'ch bod am ymuno yn yr hwyl, ymwelwch â www.playday.org.uk neu e-bostiwch playday@ncb.org.uk. Mae gan Chwarae Cymru becynnau ar gyfer trefnyddion Diwrnod Chwarae y gallwn eu hanfon allan – cysylltwch â ni yn ein swyddfa genedlaethol.

*Diolch i'r rheini â gymerodd ran yng Ngrŵp Ffocws Darparwyr Chwarae Diwrnod Chwarae ar 2 Mai ac a gwblhaodd yr Holiadur Darparwyr Chwarae.

*Bydd Chwarae Cymru'n dangos y ffilm 'Gwthio Eddie yn y Danadl Poethion gyda Connor' ym Mhabell Sbardun WCVA yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar Ddiwrnod Chwarae am 11:00 – 12:00 a 14:00 – 15:00. Cofiwch ddod draw i'n helpu i ddathlu bywiogrwydd ac amrywiaeth chwarae plant.

Am gyfarwyddiadau, ymwelwch a www.eisteddfod.org.uk.

'Where are you?' Ble Wyt ti?

Os ydych chi'n gyflogwr gweithwyr chwarae neu'n weithiwr chwarae, mae Gwaith Chwarae Cymru angen gwybod ble rydych chi a'r hyn yr ydych yn ei wneud.

Rydym wedi penodi Melyn Consulting i gynnal yr arolwg cynhwysfawr cyntaf o weithwyr chwarae yng Nghymru. Y nod yw casglu gwybodaeth ynghylch natur y gweithlu gwaith chwarae. Bydd hyn yn galluogi Gwaith Chwarae Cymru i gynllunio ar gyfer datblygiadau'r dyfodol ac i gefnogi gweithwyr chwarae mewn modd mwy effeithlon.

Os hoffech wybod mwy, gweler y daflen wybodaeth sy'n amgaeedig yn y cylchgrawn hwn. Os yw'r daflen ar goll, cysylltwch â Moz ar 029 2048 6050 neu e-bostiwch: moz@playwales.org.uk

Gellir cwblhau'r arolwg arlein ar: www.way-bwt.com

Ymchwil tlodi newydd

Mae Achub y Plant a Sefydliad Bevan wedi cyhoeddi gwaith ymchwil newydd ar dlodi plant yng Nghymru. Canfyddodd yr ymchwil, *Plant mewn tlodi difrifol yng Nghymru: agenda ar gyfer gweithredu*, bod 13 y cant o blant yng Nghymru'n byw mewn tlodi difrifol.

Gellir llwytho crynodeb weithredol o ganfyddiadau allweddol yr ymchwil i lawr o wefan Sefydliad Bevan, ynghyd â'r adroddiad llawn: www.bevanfoundation.org



Diweddariad cynlluniau tymhorol AGGCC

Mae gweinidogion wedi cytuno na fydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn ystyried, tan 1 Ebrill 2010, bod methu cyflawni'r gofynion cymwysterau ar gyfer y person mewn gofal o fewn yr Isafswm Safonau Cenedlaethol presennol, yn rhwystr i gofrestru neu'n sbardun ar gyfer gweithredu gorfodol, o ran unai gofal plant y tu allan i'r ysgol neu gynlluniau chwarae mynediad agored y mae eu cofrestriad wedi ei gyfyngu i gyfnod gwyliau ysgol unigol.

(o ddogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru, 28 March 2008)

Cyfleoedd addysg newydd

Mae gradd anrhydedd Gymreig newydd mewn astudiaethau chwarae a gwaith chwarae, newydd gael ei dilysu ac maent yn chwilio am fyfyrwyr i ddechrau yn y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae Chwarae Cymru ac Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWI) wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu cwrs sy'n cynnig llwybr addysg uwch ar gyfer gweithwyr chwarae yn benodol. Mae'r cwrs BA (Anrh) Astudiaethau Chwarae a Gwaith Chwarae yn un amser llawn (dros dair blynedd) neu rhan amser (dros chwe blynedd). Caiff myfyrwyr gyfle i ymgymryd â phrosiect estynedig (fydd yn cyfrannu at ddatblygiad a dysg arfer gwaith chwarae) i archwilio'r modd y caiff datblygiad holistig plant a phobl ifanc ei ddylanwadu gan chwarae.

Dysgwch fwy ar: www.newi.ac.uk

Cwrs arall a ddilyswyd yn ddiweddar yw'r tystysgrif ôl-raddedig dysgu o hirbell mewn chwarae a gwaith chwarae ym Mhrifysgol Caerloyw.

Caiff ei anelu at y rheini sy'n gweithio yn y sector gwaith chwarae sydd, neu sy'n anelu i fod, yn uwch-ymarferwyr, neu'n sy'n gweithio ar lefelau uwch o fewn datblygu, strategaeth, rheolaeth neu hyfforddiant. Bydd y cwrs blwyddyn o hyd yn dechrau ym mis Ionawr 2009.

I ddysgu mwy, cysylltwch ag arweinydd y Cwrs Gwaith Chwarae ar 01242 715132 neu â shsc@glos.ac.uk

Gwron y Gogledd yn hongian ei sbardunau lan



Pan ffurfiwyd Chwarae Cymru fel elusen a'i hariannu gan y Swyddfa Gymreig ddeng mlynedd yn ôl, penodwyd Tony Chilton fel ein Swyddog Datblygu dros Ogledd Cymru. Fel egin-fudiad roedd o fudd aruthrol i gael aelod allweddol o'r tîm a ddaeth â'r fath

gyfoeth o brofiad, sgiliau a gwybodaeth ynghylch darpariaeth chwarae, polisi, gwleidyddiaeth a gwaith chwarae – yn ogystal â chryfder ac egni di-ildio.

Mae Tony wastad wedi bod yn llysgennad brwd dros blant a'u hawl i chwarae. Mae wastad wedi gweithio'n ddiflino, yn ei waith yn ogystal â'i amser rhydd, i sicrhau'r gorau ar gyfer plant. Mae ei eiriolaeth dros ddarpariaeth chwarae llawr gwlad mewn cymunedau, sy'n berchen i'r cymunedau, wedi dylanwadu ar lunio polisiau yng Nghymru yn ogystal â gadael cymunedau lleol gyda meysydd chwarae a phrosiectau chwarae y gallant fod yn falch ohonynt. Mae rôl Tony wrth ddatblygu meysydd chwarae antur Cymru (a chynhadledd Ysbryd Chwarae Antur) wedi cyfrannu'n helaeth at eu llwyddiant – etifeddiaeth gaiff ei mwynhau gan blant Cymru am flynyddoedd lawer i ddod.

Ymdeolodd Tony o'i swydd gyda Chwarae Cymru ychydig flynyddoedd yn ôl, ond parhaodd i weithio mewn rôl gwirfoddol fel Cadeirydd Cymdeithas Chwarae Gogledd Cymru. Fe glywom yn ddiweddar ei fod wedi penderfynu ymdeol o'r rôl yma hefyd.

Nawr bod y gwron hwn wedi penderfynu hongian ei sbardunau lan a threulio rhagor o amser gyda'i lodes lân, rwy'n siŵr yr hoffai pob un ohonom sydd wedi gweithio gydag e', neu sydd wedi dod i gysylltiad â'i waith, anfon ein dymuniadau gorau ato am ymdeoliad hapus.

Gill Evans, Swyddog Gwybodaeth Chwarae Cymru [a oedd, ynghyd â Tony, Kathy Muse a Mike Greenaway, yn un o'r fim o bedwar gweithiwr rhan amser a ffurfiodd dîm Chwarae Cymru ym 1998].

'No Ball Games'

Mae 'No Ball Games!' yn gwmni trefnu seminarau a chynadleddau, sy'n berchen i Marc Armitage a Rachel Murray, sy'n arbenigo ar ddod â phobl broffesiynol o wahanol sectorau gwaith a gwahanol wledydd, sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, at ei gilydd gan ddarparu cyfle i rannu ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd.

www.noballgames.eu





10

ARIANNU

awgrym anhygoel ar gyfer codi arian

Mae The Venture, un o feysydd chwarae antur hynaf Cymru, ar fin dathlu ei 30ain pen-blwydd.

Sut mae'n nhw wedi llwyddo i gynnal ariannu dros Sdri degawd? Isod ceir deg awgrym (wedi eu tynnu o lyfr Fraser Brown *The Venture: a case study of an adventure playground*) sydd wedi helpu i sicrhau ystod o gefnogaeth ariannu i gwrdd ag anghenion y prosiect.

1. 'Does dim o'r fath air â Na. Y cyfan yw Na yw dechrau'r ffordd at le. Mae Na'n golygu nad yw eich prosiect yn ffitio i mewn i griteria eich cyllidwr posibl ar yr union adeg yma. Felly peidiwch fyth â throï eich cefn arnynt – daliwch i drafod a dod yn ôl gyda cheisiadau sydd ychydig yn wahanol, gan ddangos i chi ystyried amheuan blaenorol y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau.
2. Pan fyddwch yn wynebu amheuwyr dylech gyflwyno realiti'r prosiect iddynt. Sut mae'r plant yn cael budd o'r prosiect chwarae? Sut fyddai'r plant yn dioddef pe na bai'r cyllid yn cael ei ganiatáu?
3. Peidiwch â bod ofn defnyddio dadleuon emosiynol. Byddwch yn ymwybodol o fan gwan emosiynol oedolion; mae hwythau wedi profi plentyndod ac mae'n siŵr y byddant yn teimlo iddo ddod i ben yn rhy fuan, felly maent yn naturiol yn cydymdeimlo â'r angen i blant chwarae.
4. Dewch â rhai sy'n gwneud penderfyniadau cyllido i'r prosiect a gadael iddynt gwrdd â'r plant. Wedi'r cyfan, plant yw'r gwerthwyr gorau oll. Mae The Venture wedi caniatáu i'r plant hebrwng cyllidwyr posibl, newyddiadurwyr a gweinidogion y llywodraeth o amgylch y safle'n aml. Mae hyn bob amser wedi cynorthwyo i werthu'r prosiect chwarae oherwydd bod ymdeimlad y plentyn o berchenogaeth a chyfranogaeth wedi cael cyfle i dywynnu.
5. Peidiwch â dibynnu ar un ffynhonnell o ariannu. Mae buddiannau chwarae plant yn gymhleth ac yn amrywiol, sy'n golygu bod darpariaeth chwarae ddim yn syrthio i'r un categori penodol. Dylai prosiectau anelu i dderbyn cyllid o nifer o wahanol ffynonellau.
6. Gwnewch yn siŵr bod eich ffynonellau cyllid yn gorgyffwrdd o ran amser. Bydd hyn yn cyfleu parhad i'r byd mawr y tu allan ac yn bwysicaf oll i'r plant.



7. Clustnodwch bobl sydd â dylanwad ar y broses gwneud penderfyniadau, yna trefnwch gyfarfodydd a datblygwch nodiadau lobiio ar y bobl yma. Mae The Venture wedi dysgu bod sicrhau ymrwymiad pobl ddylanwadol yn aml iawn yn cyfleu datganiad o gryfder ac undod am eu prosiect.
8. Gwnewch i'r codi arian ymddangos yn real ac yn gymhellol. Bydd pobl yn derbyn llawer o geisiadau a chynigion. A yw'ch un chi'n sefyll allan? A yw'n cymell ymateb ar unwaith?
9. Byddwch yn gameleon cymdeithasol. Mae'n bwysig i ddangos parch tuag at y darpar gyllidwr ac i fod yn gymdeithasol ac yn ddymunol gydag unrhyw un sydd ag unrhyw beth i'w wneud gyda'r penderfyniad, gan y bydd safbwynt pawb amoch chi'n berthnasol.
10. Ewch i mewn i feddwl y darpar gyllidwr. Mae dysgu sut y caiff grantiau eu dyfarnu'n ffordd dda o ddysgu'r hyn sy'n ennyn ymateb gan ddosbarthwyr grantiau. Mae'n bwysig datblygu dealltwriaeth o bob corff, er mwyn ichi gael y cais yn iawn y tro cyntaf.

Cyhoeddir *The Venture: a case study of an adventure playground*, Fraser Brown yn sgwrsio â Malcolm King a Ben Tawil, gan Chwarae Cymru. Mae'n archwilio llwyddiant tymor hir The Venture – sut y gellir cynnal prosiect cymunedol trwy genedlaethau o ddefnyddwyr.



Y sefyllfa ariannu yng Nghymru

Mae cyllid cynaliadwy'n hanfodol er mwyn sicrhau darpariaeth chwarae o safon ar draws Cymru. Mae amrywiaeth o ffynonellau ariannu sy'n ateb gwahanol ofnion, a gellir defnyddio'r cyfan o'r rhain mewn modd creadigol i ariannu gwahanol agweddau o ddarpariaeth chwarae plant. Yma cawn gipolwg ar rai ohonynt, gan gynnig cyfeiriadau at fannau ble y gellir dod o hyd i gyngor a gwybodaeth ariannu.

Cyllid Cymorth

Dyma ochr Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r stori ariannu ... Ym mis Ebrill 2000 cyhoeddodd Cynulliad Cymru eu bod yn bwriadu darparu £1 miliwn gyda'r diben o wella cyfleusterau chwarae mynediad agored ar gyfer plant mewn cymunedau difreintiedig yng Nghymru. Mae'r hyn a elwid bryd hynny'n Grant Chwarae, bellach yn rhan o gyllid Cymorth a chaiff ei ddyrannu'n rhanbarthol gan y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

BLWYDDYN	DYRANIAD
1999-2000	0.00
2000-2001	£1 miliwn
2001-2002	£1 miliwn
2002-2003*	£2.8 miliwn

* Yn cynnwys dyraniad ychwanegol o £500,0000

Ym mis Ebrill 2003 cafodd Chwarae, ynghyd â grantiau eraill, eu cyfuno'n gynllun unigol, Cymorth – y Gronfa Cymorth i Blant a Phobl Ifanc. Ers dechrau Cymorth mae bron i £26 miliwn wedi cael ei ddyrannu i chwarae.

Ym mis Rhagfyr 2006 cyhoeddwyd £1 miliwn ychwanegol i gefnogi cyfleusterau chwarae ychwanegol ar gyfer plant anabl. Ymatebodd pob un o'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc mewn modd cadarnhaol i'r dyraniad ychwanegol yma i'w grant Cymorth yn 2007- 2008. Mae ariannu ar gyfer chwarae i blant anabl yn parhau dros dair blynedd y gyllideb newydd.

BLWYDDYN	DYRANIAD
2003-2004*	
2004-2005	£5.3 miliwn
2005-2006	£4.9 miliwn
2006-2007	£5.3 miliwn
2007-2008 #	£6.3 miliwn

* Roedd y ffigyrau'n cael eu cofnodi mewn modd gwahanol pan ddechreuodd Cymorth, ond amcangyfrifir bod tua £4 miliwn wedi ei ddyrannu yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Mae hwn yn cynnwys y £1 miliwn ychwanegol i gefnogi cyfleusterau chwarae ar gyfer plant anabl.

Mae'r Partneriaethau wedi croesawu'r ariannu ychwanegol ar gyfer chwarae i'r anabl yn 2007-08. Cafodd yr ariannu yma ar gyfer chwarae plant anabl ei ddefnyddio i symud ymlaen bwynt gweithredu allweddol o fewn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol: y dylai plant a phobl ifanc anabl gael mynediad cyfartal i wasanaethau chwarae a hamdden, gyda chefnogaeth priodol os oes angen.

O fis Medi bydd y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn gweithio i'w cynllun unigol (gweler yr erthygl yn ein adran newyddion am ragor o wybodaeth) – gall hyn olygu y caiff cyllid Cymorth ei ddefnyddio mewn modd gwahanol i gwrdd â blaenoriaethau newydd ar gyfer chwarae.

Safonau Cenedlaethol ar gyfer Codi Arian

Mae The UK Workforce Hub a The Institute of Fundraising wedi cydweithio i adolygu a gwella'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Codi Arian. Mae'r safonau ar gyfer codwyr arian, y rheini sy'n codi arian fel rhan o'u gwaith a'r rheini sy'n rheoli codi arian, boed hynny mewn rôl gwirfoddol neu gyflogedig.

Am ragor o wybodaeth ac i ddarllen y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Codi Arian, ymwelwch â: www.ukworkforcehub.org.uk/DisplayPage.asp?pageid=12043

Ariannu – ble i ganfod cymorth

Mae gwefan Cyllid Cynaliadwy Cymru yn darparu gwybodaeth am opsiynau ariannu, astudiaethau achos, hyfforddiant a ffynonellau cymorth pellach. Maent hefyd yn cynnig arweiniad a chyngor ar ddewis cyllidwr grantiau; yr hyn y mae cyllidwyr ei eisiau; cwblhau cynigion a cheisiadau; a throsglwyddo prosiect wedi ei ariannu gan grant. Mae'r wefan yn cynnwys rhestrau y gellir eu llwytho i lawr o ymddiriedolaethau sy'n dosbarthu grantiau i sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru yn ogystal â ffeithddalen o ganllawiau ar wella cheisiadau grant.

Yn ogystal, mae Cyllid Cynaliadwy Cymru yn trosglwyddo ystod o gyfleoedd hyfforddiant er mwyn darparu'r arfau a'r adnoddau sydd eu hangen ar sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i sicrhau cynnaladwyedd ariannol. Bwriedir y cyrsiau ar gyfer y rheini sy'n gyfrifol am gynllunio a chodi arian mewn mudiadau gwirfoddol a chymunedol rheng flaen – o gyflogai a gwirfoddolwyr i ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr. www.sustainablefundingcymru.org.uk

Mae 'Funder Finder' yn elusen fychan yn y DU sy'n cynhyrchu meddalwedd ac adnoddau eraill ar gyfer rhai sy'n chwilio am grantiau. Maent yn arbenigo mewn darparu gwybodaeth a chyngor ynghylch ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol yn y DU. www.funderfinder.org.uk

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn rheoli ystod o gynlluniau grantiau sy'n cefnogi sefydliadau gwirfoddol lleol, cymunedau, grwpiau a gwirfoddolwyr trwy Gymru gyfan. Mae'r CGGC hefyd yn rhoi mynediad i fudiadau gwirfoddol i ffynonellau ariannu a reolir gan y sector wirfoddol, a thrwy hynny'n atgyfnerthu eu annibyniaeth o sectorau eraill. www.wcva.org.uk

Mae Cyngorau Gwirfoddol Sirol yn cadw gwybodaeth am ymddiriedolaethau elusennol lleol, a cheir nifer o wefannau eraill sydd â data bas o gyfleoedd ariannu y gellir ei chwilio. Dyma rai enghreifftiau:

Cofrestr y Comisiwn Elusennau:
www.charity-commission.gov.uk

Guide Star UK: www.guidestar.org.uk


Association of Charitable Foundations: www.acf.org.uk

Charities Aid Foundation: www.cafonline.org.uk

Peidiwch ag anghofio am e-fwletin aelodau Chwarae Cymru gaiff ei gyhoeddi bob yn ail fis, sy'n cynnwys newyddion ynghylch cyfleoedd ariannu posibl ar gyfer darparwyr chwarae yng Nghymru.



Cyfweliad gyda Marc Phillips, Cyfarwyddwr BBC Plant Mewn Angen yng Nghymru



Ymunodd Angharad Wyn Jones â Marc yn ffreutur y BBC yn Llandaf i gael sgwrs am chwarae ac ariannu.

Ble oedd eich hoff le i chwarae pan yn blentyn?

Fy atgofion pennaf o chwarae yw ar y tomenni glo yn Aberpennar a defnyddio darnau o gardbord fel sled i lithro i lawr y tomenni, a gweryslla allan yn y goedwig. Yr oedd rhai pobl yn edrych arno fel man peryglus i chwarae. Mewn manau anffurfiol ar ein stepen drws yr oedden ni'n chwarae. Yr oedd y cwmni yn bwysicach na lle yr oedden ni'n chwarae. Roeddwn yn chwarae yn lle bynnag yr oedd ffrindiau'n ymgynnull.

Pam fod Plant Mewn Angen yn un o ariannwyr gorau chwarae plant?

Mae'n hanfodol pwysleisio mai elusen sy'n ffocysu ar blant difreintiedig yw Plant Mewn Angen, boed hynny yn economaidd, yn gorfforol, yn seicolegol neu yn feddygol, ac nid elusen sy'n ariannu chwarae yn gyffredinol. Mae Plant Mewn Angen wedi buddsoddi mewn chwarae plant erioed oherwydd ei fod yn gyfrwng effeithiol i ddatblygu plentyn difreintiedig a'u cynorthwyo i ddelio â'r problemau sy'n eu hwynebu bob dydd.

A yw hi'n anodd dweud 'na' wrth bobl?

Wrth gwrs! Eleni mae gennym gyllideb o £2.8 miliwn yng Nghymru - rydym wedi derbyn ceisiadau am £15 miliwn, felly mae dweud 'na' yn gorfod digwydd. Canlyniad hyn yw rhoi blaenoriaeth bob amser i'r prosiectau sy'n fwyaf tebygol o fod yn effeithiol yn y ffordd maent yn herio amddifadedd. Rydym yn chwilio am rywbeth arbennig o ran ansawdd, ac nid o reidrwydd unrhyw beth newydd.

Sut ydych chi'n gweld yr hinsawdd ariannu yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf?

Gobeithiol. Rydym yn edrych ymlaen gyda diddordeb tuag at weld yr hyn a wneir gyda'r arian a ddosbarthwyd trwy raglen Chwarae Plant Cronfa Loteri FAWR. Mae'n chwistrelliad hollbwysig o gyllid i mewn i'r sector. Ond, mae pryderon ynghlwm â hyn, yn enwedig os y bydd awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio fel esgus pellach i beidio â

buddsoddi mewn darpariaeth chwarae.

Ond, oherwydd natur hygyrch y Llywodraeth yng Nghymru mae modd trafod gyda gweinidogion a gweision sifil ar lefel strategol. Mae yna gyfle i gyflwyno dadleuon a all gael effaith positif. Mae rhai agweddau o waith y Cynulliad yn torri ar draws batrymau arferol adrannau gweinidogion. Crewyd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc newydd ychydig fisoedd yn ôl - sy'n rhoi cyfle inni greu trafodaeth newydd a hollol agored. Byddai'n ddiddorol gweld Chwarae Cymru'n cael trafodaeth â hwy am chwarae, yn ychwanegol i unrhyw drafodaethau â gweinidogion sy'n digwydd eisoes.

Pam ydych chi'n meddwl bod yn rhaid i chwarae plant ddibynnu gymaint ar nawdd allanol ac elusennol?

Y realiti yw fod pob agwedd ar fywyd yn dibynnu ar elusennau. Mae'n beth iach bod pobl leol yn dod ynghyd mewn cymunedau er mwyn darparu cyfleoedd chwarae. Mae'n rhoi perchenogaeth i'r gymuned leol a balchder yn ansawdd y ddarpariaeth. Ond ddylai cymunedau lleol ddim dibynnu ar nawdd elusennol. Rôl y Llywodraeth neu lywodraeth leol yw'r ddarpariaeth graidd, gydag elusennau yn cyfrannu at yr elfennau ychwanegol er mwyn gwella ansawdd. Ond, fe ddylai arian cychwynnol a sefydlog ddod gan y Llywodraeth.

Ble yw eich hoff le i chwarae nawr?

Erbyn hyn rwy'n dad-cu i ddwy wyres ac un wyr. Mae chwarae gyda fy wyrion yn dueddol o ddiwydd mewn manau mwy ffurfiol megis y pwll nofio a meysydd chwarae mewn parciau cyhoeddus. Nid yw bywyd mor rhydd â phan oeddwn i'n lithro i lawr y tomenni glo. Rydym hefyd yn mynd i gerdded ym Mannau Brycheiniog - mae'r plant yn cael mwy o foddhad o hynny nac o chwarae mewn sefyllfaedd mwy ffurfiol.

Dysgwch fwy am BBC Plant Mewn Angen ar:
www.bbc.co.uk/pudsey/



Cynrychiolwyr o'r prosiectau Chwarae Plant yn ymuno ag aelodau o staff Cronfa Loteri FAWR i ddathlu'r isadeiledd chwarae newydd trwy Gymru gyfan

Cronfa Loteri FAWR – edrych tua'r dyfodol

Cyllido Call yw un o'r pynciau llosg diweddaraf yn y byd ariannu, ond beth mae'n ei olygu mewn gwirionedd? Simon Blackburn, dirprwy gyfarwyddwr (Polisi a Materion Allanol) Cronfa Loteri FAWR yng Nghymru sy'n egluro sut y mae MAWR yn gweithredu'n gall.

Cronfa Loteri FAWR yw'r mwyaf o ddsbarthwyr y Loteri, yn dyfarnu dros hanner yr arian a gesglir o werthiant y Loteri Genedlaethol. Rydym wedi dyfarnu dros £600 miliwn i brosiectau haeddiannol ar draws Cymru ac ar hyn o bryd rydym yn buddsoddi tua miliwn o bunnoedd yr wythnos.

Ond rydym am fod yn fwy na dim ond cyllidwr, rydym am fuddsoddi mewn syniadau da, rydym am dylanwadu ar bolisiau lleol a chenedlaethol, rydym am ddysgu a rhannu ein dysg ac yn bwysicaf oll rydym am gael effaith tymor hir.

Dyma beth mae Cyllido Call yn ei olygu. Felly, beth ydyn ni'n ei wneud ynghylch hyn?

Y llynedd fe wnaethom adolygu ein rhaglenni ariannu a bydd hyn yn hysbysu datblygiadau yn y dyfodol, ond yr un mor bwysig, byddwn yn rhannu'r dysg yma gyda sefydliadau ariannu eraill – mae llawer o'r materion o bwys a glustnodwyd yn rhai cyffredinol ac mae'n bwysig nad ydynt yn cael eu hystyried ar eu pen eu hunain.

Rydym yn sylweddoli hefyd nad ydym yn arbenigwyr ym mhob maes ac un o egwyddorion sylfaenol cyllido call yw gweithio mewn partneriaeth ag eraill all ein cynorthwyo i drosglwyddo ein canlyniadau. Un enghraifft wych yw'r rhaglen Chwarae Plant, ble rydym yn gweithio ochr-yn-ochr â Chwarae Cymru i drosglwyddo buddsoddiad o £13 miliwn gan anelu i wella'r isadeiledd chwarae yng Nghymru. Mae'r wybodaeth gyd-destunol a ddarparwyd gan Chwarae Cymru, o'i gyfuno â'n harbenigedd wrth darynnu grantiau, a gwybodaeth polisi ehangach, wedi ein helpu i ddatblygu rhaglen strategol gafodd ei thargedu at y meysydd sydd fwyaf o angen cymorth. Tra ei bod dal yn gynnar, mae'r arwyddion cyntaf yn dangos y bydd y rhaglen yn cael effaith sylweddol ar y sector chwarae.

Yn yr un modd, rydym wedi llunio cytundeb gyda mudiad o'r enw Tribal i gefnogi ymgeiswyr i'n rhaglen Pawb a'i Le. Gall y rheini sy'n ymgeisio

am gyllid wneud defnydd o gyngor arbenigol wrth baratoi eu ceisiadau yn ogystal â chael eu cyfeirio at bartneriaid posibl. Mae Hall Aitken yn gweithio gyda ni ar ein rhaglen Ffordd o Fyw. Golyga'r mewnbyn arbenigol yma y gallwn dargedu ein hariannu yn fwy effeithlon a sicrhau ei fod yn gwneud gwahaniaeth tymor hir real.

Un mater llosg allweddol i brosiectau sy'n cael eu hariannu gan y Loteri yw cynaliadwyedd; byddwn yn cefnogi grwpiau i ystyried ymarferoldeb tymor hir eu prosiectau. Rydym wedi buddsoddi dros hanner miliwn o bunnoedd mewn prosiect, gaiff ei drosglwyddo gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), i werthuso'r gefnogaeth y mae grwpiau ei angen i dyfu'n fwy cynaliadwy.

Mae'r wybodaeth yr ydym wedi ei gasglu'n rhoi cyfle inni gyfrannu at, a dylanwadu ar yr agenda gymdeithasol. Un enghraifft o hyn yw'r ymgyrch Mwy Na Rhif y gwnaethom ei chydylynu'n ddiweddar i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl yng Nghymru. Wedi ei dylunio i gyfrannu'r rhaglen Iechyd Meddwl, roedd yr ymgyrch yn cynnwys cynhyrchu adnoddau i ddileu chwedlau a geir ynghylch materion iechyd meddwl, comisiynu gwaith ymchwil i ystyried rhwystrau sy'n wynebu'r rheini sy'n dymuno cael mynediad i wasanaethau iechyd meddwl mewn ardaloedd gwledig a thyfodd hyn i fod yn ffocws i'n digwyddiadau yn ystod haf 2007.

Yn olaf, rydym am i bawb deimlo y gallant fod yn rhan o'r hyn yr ydym yn ei wneud a chyfrannu eu syniadau eu hunain at ein prosesau yn y dyfodol. Mae cynnwys y cyhoedd yn uchel ar ein agenda, o bleidleisio dros eich hoff brosiect Loteri ar ITV Wales i ymweld â'n stondin yn nigwyddiadau'r haf, neu godi un o'n cychgronau lan wrth i chi brynu tocyn loteri, i ddod yn aelod ar un o'n pwyllgorau – rydym yn gobeithio bod modd i bawb ymuno yn ein gwaith.

Cysylltwch â MAWR ar 01686 611700 neu e-bostiwch ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk neu ymwelwch â www.cronfaloterifawr.org.uk



Rhaglen Ffordd o Fyw MAWR

Mae menter Teuluoedd Iach Cronfa Loteri FAWR yn helpu i hyrwyddo ffyrdd iach a heini o fyw ymysg plant dan 12 mlwydd oed trwy greu agwedd gydlynol tuag at chwarae plant, bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol.

Mae'r fenter Teuluoedd Iach £20 miliwn wedi ei rhannu'n ddau llyn – y rhaglen Chwarae Plant (£13 miliwn) a'r rhaglen Ffordd o Fyw (£7 miliwn). Mae Chwarae Cymru dan gytundeb i gefnogi trosglwyddo'r rhaglen Chwarae Plant ac mae Hall Aitken dan gytundeb i helpu i gefnogi ymgeiswyr Ffordd o Fyw.

Mae Hall Aitken wedi datblygu tri o fodelau prosiect ar gyfer ceisiadau. Mae'r modelau hyn fel a ganlyn: Ffrindiau Iach; Mannau Iach a Thiworiaid Cartrefi Iach. Yma, rydym yn cynnig cymorth i ffyrdd y gall y modelau Ffordd o Fyw ddatblygu cysylltiadau â chwarae plant ble fo'n briodol:

Mannau Iach: mae nifer o ardaloedd yng Nghymru eisoes wedi clustnodi'r angen i ad-ennill gofod mewn cymunedau lleol i blant chwarae. Bydd swyddogion chwarae a chymdeithasau chwarae ynghlwm â chlustnodi lleoliadau sy'n addas i'r prwpas hwn. Gallai'r model hwn gyfannu rhai o'r prosiectau lleol hynny.

Mae nifer o ardaloedd awdurdodau lleol yn trefnu digwyddiadau Diwrnod Chwarae i ddatllu'r Diwrnod Chwarae Cenedlaethol a gynhelir bob mis Awst. Yn aml iawn bydd y digwyddiadau hyn yn dod ag ystod o fudiadau a mentrau ynghyd gan ddarparu lle i blant chwarae yn hytrach na chymryd rhan mewn gweithgareddau wedi eu strwythuro (boed yn gorfforol ai peidio).

Caiff cyfleoedd chwarae eu hwyluso gan weithwyr datblygu chwarae a chymdeithasau chwarae lleol. Byddai gweithwyr chwarae'n darparu amgylchedd, gofod, deunyddiau a rhannau rhydd i blant i'w harchwilio.

Tiworiaid Cartrefi Iach: byddem yn argymhell y dylai swyddogion chwarae a chymdeithasau chwarae gymryd rhan mewn cwrs sefydlu Tiworiaid Cartrefi Iach er mwyn eu galluogi i ddarparu gwybodaeth i rieni ynghylch materion sy'n effeithio ar blant sy'n chwarae, er enghraifft 'mae baw yn dda' ac 'mae damweiniau'n digwydd'.

Ceir system ar gyfer cyfathrebu rheolaidd rhwng y cynllun Tiworiaid Cartrefi Iach a phrosiectau datblygu chwarae lleol er mwyn i'r Tiworiaid Cartrefi Iach allu darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni ynghylch darpariaeth chwarae cymunedol.

Bydd Tiworiaid Cartrefi Iach yn gweithio gyda rhieni i'w cynorthwyo i ennill hyder i gefnogi eu plant i gael mynediad i brosiectau a manau lleol er mwyn chwarae.

Mae pedwar ar ddeg o brosiectau ar draws y wlad yn elwa o'r £6,378,393 a ddyfarnwyd dan y fenter hon, sy'n anelu i ddatblygu ffyrdd newydd a dyfeisgar o hyrwyddo bwyta'n iach, gweithgarwch corfforol a chwarae ymysg plant trwy brosiectau sy'n cynnwys y teulu cyfan.

Gellir llwytho rhestr o'r prosiectau llwyddiannus, a dderbyniodd gyllid Ffordd o Fyw, i lawr o adran 'Ariannwyd gennyf' gwefan MAWR: www.cronfaloterifawr.org.uk

Cysylltiadau prosiectau isadeiledd Chwarae Plant

CRONFA
LOTERI
FAWR
BIG
LOTTERY
FUND

Yn rhifyn Gaeaf 2007 o *Chwarae dros Gymru* fe wnaethom adrodd bod Cronfa Loteri FAWR wedi cyhoeddi'r ymgeiswyr llwyddiannus yn rownd gyntaf y rhaglen Chwarae Plant. Ers hynny penodwyd aelodau newydd o staff i reoli'r prosiectau isadeiledd yn y rhan fwyaf o ardaloedd.

Caerdydd a Bro Morgannwg – Re-create

Cyswllt: Chris Southern – chris@re-create.co.uk

Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro –

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr

Cyswllt: Pete King – pking@cavs.org.uk

Ceredigion – Ray Ceredigion Play Fforwm Chwarae

Cyswllt: Gill Byrne – gill.byrne@btconnect.com

Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr –

Cyswllt: Ben Greenaway –

ben@rcfplayassociation.org.uk

Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot – Playright

Cyswllt: Helen Elton – helen@playright.org.uk

Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Chaerffili – Tri-County

Cyswllt: Paula Harris – Enquiries@tricityplay.co.uk

Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy –

Fforwm Chwarae Gogledd Orllewin Cymru

Cyswllt: Amanda Williams –

amanda.l.williams@conwy.gov.uk

Torfaen, Casnewydd a Sir Fynwy – Three Counties

Cyswllt: Jackie Smith –

jackie@torfaenvoluntaryalliance.org.uk

Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam –

Fforwm Chwarae Gogledd Ddwyrain Cymru

Cyswllt: Janet Roberts –

janet.a.roberts@flintshire.gov.uk



A yw 'bwyta'n iach' yn iach mewn sefyllfa chwarae?

Mae Chwarae Cymru wedi cyhoeddi papur briffio newydd, i helpu darparwyr chwarae i wneud synnwyr o'r agenda bwyta'n iach. Fe ofynnem i Lisa Williams o brosiect 'Creative Play' Caerffili i adolygu'r papur briffio.

Nod y papur hwn yw darparu model ar gyfer gweithwyr chwarae, darparwyr chwarae ac eraill sydd â diddordeb ar sut i gynnwys bwyd yn y sefyllfa chwarae mewn modd sy'n cefnogi'r Egwyddorion Gwaith Chwarae a Pholisi Chwarae Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rydym yn byw mewn cymdeithas bellach ble y caiff nifer o wahanol agendâu eu gosod ar ysgwyddau plant a phobl ifanc, llawer ohonynt â'r bwriad gorau a gyda iechyd a lles plant a phobl ifanc yn uchaf yn eu meddyliau.

Fel gweithwyr chwarae sy'n eiriol dros chwarae er mwyn chwarae a gwerth chwarae heb ddylanwad a llygriad agendâu allanol, mae'n tyfu'n fwy fwy anodd i fod yn ymwybodol ac yn barchus o'r agendâu hyn heb effeithio'n uniongyrchol ar chwarae'r plant yr ydym yn gweithio â hwy. Mae cymdeithas bob amser yn newid a bob amser yn ddylanwadol ac mae'n bwysig bod gweithwyr chwarae'n ymwybodol o'r dylanwadau allanol all effeithio ar chwarae plant o'r modd gorau o ymdrin a delio â'r dylanwadau hyn mewn modd priodol.

Tra bo'r agenda iechyd yn flaenoriaeth bwysig yn ein cymdeithas ar hyn o bryd gyda phryderon ynghylch gordewdra, gweithgarwch corfforol a maetheg, fe ddylen ni fel gweithwyr chwarae fod yn ymwybodol o agendâu o'r fath ond dylem hefyd beidio ymgolli yn yr agenda a cholli golwg o'r egwyddorion gwaith chwarae yr ydym yn anelu amdanynt.

Mae'r daflen wybodaeth *Chwarae, Gwaith Chwarae a Bwyd* yn amlinellu nifer o feysydd sy'n cynnwys bwyd, chwarae ac iechyd gan amlinellu nifer o agweddau addysgiadol a diddorol i weithwyr chwarae eu hystyried. Mae'r wybodaeth yn cynnig canllaw da ond mae angen hefyd ei osod yng nghydestun a pherthnasedd darpariaethau a gwasanaethau unigol.

Mae'n bwysig ystyried y plentyn fel unigolyn sydd ag anghenion, a sut y gall oblygiadau megis iechyd a maetheg effeithio ar chwarae plentyn. Fel y nodwyd yn yr adolygiad 'mae'r agenda bwyta'n iach yn un bwysig iawn, ond agenda oedolion yw hon ac nid oes lle iddi mewn sefyllfa chwarae'.

Dros y ddwy flynedd diwethaf mae 'Creative Play' yng Nghaerffili wedi bod yn cyflwyno bwyd fel adnodd chwarae i sefyllfaoedd plant ar draws y Bwrdeistref. Mae'n adnodd ac yn brofiad synhwyrdd gwyb ar gyfer plant a phobl ifanc o bob oed. Caiff ei ddewis yn rhydd, ei gyfarwyddo'n bersonol a'i gymhell yn gynhenid gan blant yn unol â'r union egwyddorion y byddwn ni fel gweithwyr chwarae'n glynu atynt. Mae'n adnodd sy'n aml iawn ddim yn derbyn y gydnabyddiaeth chwarae y mae'n ei haeddu, yn enwedig o ystyried bod ganddo'r gallu i gyffroi'r pum synnwyr sef clywed, teimlo, blasu, arogl i gweld.



Pobl ifanc yn chwarae gyda bwyd yng nghanolfan ieuencid Sant Cenydd



Mae'r synhwyrddau i gyd yn cael eu cyffroi



Oedolion a phlant yn ymuno yn yr hwyl

Fel gweithwyr chwarae fyddwn ni ddim yn diystyru bwydydd oherwydd faint o fraster, calorïau neu siwgr sydd ynddynt, ond yn hytrach byddwn yn defnyddio deunyddiau amrywiol fydd yn amlbwrpas, yn hyblyg, yn symbyliol ac o'r gwerth chwarae gorau posibl. Mae chwarae a gwerth chwarae a photensial adnoddau wastad wrth galon yr hyn y byddwn yn ei wneud ar gyfer y plant, gan ystyried yn bennaf y plant yr ydym yn gweithio â hwy a gan barchu diwylliant, alergeddau ac anghenion pob unigolyn.



Digwyddiadau

9–11 Gorffennaf 2008

'Toy and Culture – International Toy Research Association World Congress'

Galwad am bapurau www.toyresearch.org

15–16 Gorffennaf 2008

'Play Fair'

Parc Stoneleigh, Cofentri

www.playfairuk.com

18–20 Gorffennaf 2008

'Wild & Away – The 3rd National Environmental Play Conference'

Green & Away Village, Swydd Gaerwrangon

Galwad am bapurau www.playworkpartnerships.co.uk

5–7 Medi 2008

'The Beauty of Play – play conference under canvas'

Swydd Stafford

Galwad am bapurau

www.ludemos.co.uk/members11.htm

13–17 Hydref 2008

11ed Cynhadledd Llyfrgelloedd Teganau Rhyngwladol

Paris

Galwad am bapurau

www.alf-ludotheques.org/reseau/congres-en.php

3–5 Tachwedd 2008

'Child in the City' – 4ydd Cynhadledd Ewropeaidd

Rotterdam

Galwad am bapurau

www.europoint.eu/events/?childinthecity

Aelodau newydd o'r fîm

Croeso i ddau aelod newydd o'r fîm a ymunodd â Chwarae Cymru ym mis Mawrth. Daw Eleanor Maunder, ein cynorthwy-ydd gwybodaeth newydd, atom ar ôl gweithio yng Nghynulliad Cymru am y tair blynedd diwethaf. Yn y gorffennol bu'n swyddog cysylltiadau'r Tîm Rhoi Plant yn Gyntaf a gweithiodd gyda'r elusen 'Vale Plus' yn ei hamser sbâr.

Medd Eleanor: 'Rwy'n falch fy mod bellach yn y sector wirfoddol yn llawn amser, gan y bydd gweithio i Chwarae Cymru'n caniatáu imi wneud gwaith sy'n gymdeithasol arwyddocaol unwaith eto. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Tîm Gwybodaeth a'u helpu i gynhyrchu'r cylchgrawn chwarterol hwn.'

Penodwyd Aled Morris yn gynorthwy-ydd gweinyddol newydd Gwaith Chwarae Cymru. Cyn ymuno â Chwarae Cymru bu'n gweithio gydag Uned Data Llywodraeth Leol, Cyngor Gofal Cymru a Chartrefi Cymru.

Dywed Aled: 'Ers imi ddechrau gweithio gyda Chwarae Cymru mae pawb wedi bod yn groesawus iawn, mae'r awyrgylch yn hamddenol ond eto'n brysur, ac mae yma ymdeimlad o fod â meddwl agored nad ydw i wedi dod ar ei draws mewn swyddfeydd o'r blaen. Rwy'n edrych ymlaen at ddatblygu fy sgiliau yma a derbyn rhagor o gyfrifoldebau wrth i fy nealltwriaeth o'r gwaith ehangu.'



Pen-blwydd hapus i'r Venture

Bob blwyddyn bydd maes chwarae antur The Venture yn Wrecsam yn cael parti pen-blwydd, ond bydd Dydd Gwener 1 Awst 2008 yn nodi carreg filltir o bwys, wrth iddo ddatlu ei ddegfed blwydd ar hugain! Gyda'r thema 'ddoe a heddiw' bydd y staff, y plant a'r bobl ifanc yn gwneud eu gorau glas i sicrhau y caiff pawb amser da.

Fel Rheolwr, bu Malcolm King yn rhan annatod o The Venture ers nifer fawr o flynyddoedd, ac mae cynlluniau ar y gweill iddo chwarae rôl teithiwr amser yn ystod y dathliadau. 'Does neb yn gwbl sicr sut y caiff ei lansio, ond 'does dim dwywaith y bydd y parti hwn yn fwy ac yn well nag erioed!

Hoffai The Venture wahodd pob aelod o staff, yn hen a newydd, plant a phobl ifanc i ymuno â hwy ar y diwrnod. Cysylltwch â Darren Roberts ar 01978 340703 i wneud yn siŵr y gallwch fod yno.



mlynedd o Ddatblygu'r Gweithlu

Dros y ddegawd diwethaf gwelwyd cryn ymdrechion yn cael eu gwneud i ddatblygu gweithlu gwaith chwarae proffesiynol hyfforddedig a chydabyddedig yng Nghymru.

1998 Cymerodd Chwarae Cymru ran mewn cyfarfodydd, ar lefel genedlaethol, gyda SPRITO y sefydliad hyfforddi cenedlaethol dros waith chwarae

1999 Sefydlodd SPRITO uned gwaith chwarae i arwain datblygiad addysg a hyfforddiant gwaith chwarae yn y DU [yn hwyrach daeth SPRITO yn gyngor sgiliau sector, SkillsActive]

2001 Sefydlwyd Clybiau Plant Cymru i gefnogi datblygiad clybiau gofal plant – sy'n cynnig hyfforddiant gwaith chwarae.

Cyhoeddwyd Yr Hawl Cyntaf ..., a'i ddilyn gyda Yr Hawl Cyntaf – prosesau dymunol

2002 Derbyniodd Chwarae Cymru gyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflogi swyddog datblygu dros addysg a hyfforddiant mewn gwaith chwarae i gymryd agwedd strategol tuag at ddatblygiad gweithlu gwaith chwarae ar lefel genedlaethol

Cynhaliodd Chwarae Cymru adolygiad ac ymgynghoriad o'r gweithlu gwaith chwarae arweiniodd at yr Egwyddorion Gwaith Chwarae

2004 Cymeradwywyd yr Egwyddorion Gwaith Chwarae gan SkillsActive

2005 Sicrhodd Partneriaeth CWLWM – mudiadau gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru – gyllid o Gronfa Strwythurol Ewrop a dechreuodd y gwaith ar greu ystod o adnoddau, gan gynnwys cymhwyster gwaith chwarae newydd (Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith)

2006 Lanswyd Cynllun Gweithredu Polisi Chwarae LICC – oedd yn nodi camau gweithredu fyddai'n cefnogi gwaith chwarae fel proffesiwn ac anghenion hyfforddiant gweithwyr chwarae

Lanswyd *Quality Training Quality Play* – strategaeth gyntaf y DU ar gyfer addysg, hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae

2007 Gwelodd Diwrnod Chwarae gyhoeddi cyllid ar gyfer Canolfan Genedlaethol Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae, penodwyd rheolwr a dechreuwyd ar y gwaith. Enw'r Ganolfan Hyfforddiant newydd yw Gwaith Chwarae Cymru

Daeth y Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae i Gymru yn gorff cyfansoddiadol

2008 Mae cwrs gradd gwaith chwarae yn Athrofa Gogledd Dawyrain Cymru newydd gael ei ddilysu ...

Mae Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith ar fin dod yn gymhwyster cydnabyddedig ...

Mae Gwaith Chwarae Cymru wedi comisiynu'r arolwg cyntaf o'r gweithlu gwaith chwarae yng Nghymru ...

Mae'r gwaith wedi dechrau ar Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith Lefel 3 ...

Deg gobaith / galwad ar gyfer y deng mlynedd nesaf

- Cydnabod gwaith chwarae fel proffesiwn
- Argymell graddfeydd cyflog ac amodau a thelerau ar gyfer gweithwyr chwarae
- Cyfleoedd pellach ar gyfer astudiaethau addysg uwch mewn gwaith chwarae yn Ne Cymru
- Cwrs gradd lefel meist'r mewn gwaith chwarae yng Nghymru
- Gwell cydnabyddiaeth o gymwysterau gwaith chwarae gan gyflogwyr ac arolygwyr
- Isadeiledd, a chefnogaeth dda iddo, o hyfforddwyr ac aseswyr gwaith chwarae i gwrdd ag anghenion y gweithlu
- Cymwysterau gwaith chwarae sy'n addas ar gyfer rhai 14 – 19 mlwydd oed
- Cynnydd yn y buddsoddiad mewn hyfforddiant
- Cyfleoedd o safon ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus – gan gynnwys modylau newydd ar gyfer gwaith chwarae meysydd chwarae antur, rheolaeth, sgiliau busnes a chwarae cynhwysol
- Rhwydwaith cefnogol ar gyfer cyflogwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu'r gweithlu



Ariannu hyfforddiant gwaith chwarae

'Dyw hi ddim yn rhwydd i ddod o hyd i gyllid ar gyfer hyfforddiant gwaith chwarae ac eto mae'n hanfodol bod gweithwyr chwarae'n derbyn yr hyfforddiant diweddaraf o'r safon uchaf – er mwyn i blant gael y cyfleoedd chwarae gorau.

Mae rhai cyflogwyr gwaith chwarae yng Nghymru wedi defnyddio ariannu Cymorth neu Dechrau'n Deg i dalu am gyrsiau Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P³).

Y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol sy'n dosbarthu ariannu Cymorth ar gyfer chwarae, tra y gellir holi Cydlynwyr Dechrau'n Deg lleol ynghylch ariannu ar gyfer hyfforddiant gwaith chwarae.

Dywed Canllawiau Dechrau'n Deg Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwaith paratoadol yn ystod y flwyddyn ariannol 2006-07:

'Mae'r ariannu sydd ar gael trwy Dechrau'n Deg yn cynnig cyfle am fuddsoddiad cydgyssylltiedig sy'n delio â gofynion gweithlu Dechrau'n Deg, y Cyfnod Sylfaen, a'r strategaethau gofal plant a chwarae'n fwy cyffredinol.

'Mae Llywodraeth y Cynulliad yn credu y

bydd y buddsoddiad hwn yn cwmpasu gwarchod plant; sefyllfaoedd grŵp; y Cyfnod Sylfaen mewn sefyllfaoedd a gynhelir ac na gynhelir; a gwaith chwarae. Er bod gwaith chwarae'n gyffredinol er budd plant oedran ysgol, mae sgôp ychwanegol ar gyfer cyfnewid staff rhwng, er enghraifft, gweithwyr gwarchod plant a chynorthwyyr dosbarth. Felly, gall buddsoddiad mewn gwaith chwarae helpu i gynyddu'r gweithlu cyffredinol dan sylw o fewn cyd-destun bod yn rhaid i staff fod â chymwysterau a phrofiad priodol ar gyfer pob sefyllfa y maent yn gweithio ynddo.

'Dylai cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant yn defnyddio'r ariannu yma gael ei neilltuo'n bennaf i gwrad â chostau'r cymwysterau ar Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ACCAC ar gyfer Addysg Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Gwaith Chwarae ar lefelau 2 a 3.'

Rydym wedi derbyn cadarnhad gan

Lywodraeth Cynulliad Cymru bod hyn yn dal i fod yn wir – gellir ariannu hyfforddiant gwaith chwarae trwy Dechrau'n Deg.

Mae RAY Ceredigion yn bwriadu defnyddio ariannu Dechrau'n Deg ar gyfer hyfforddiant P³ yn y dyfodol agos. Medd Gill Byrne, Swyddog Gweithredol:

'Rydym yn aros ar hyn o bryd am ganiatâd i ddefnyddio'r arian yma. Rwy'n aelod o is-grŵp hyfforddiant Partneriaeth Plant Ceredigion ac rwy'n gobeithio felly y bydd y broses ymgaisio ar gyfer yr ariannu yma'n un rhwydd.'

Mae Chwarae Cymru'n awyddus i gefnogi darparwyr hyfforddiant gwaith chwarae sy'n dymuno defnyddio'r ffrwd ariannu yma at ddibenion hyfforddiant gwaith chwarae. Cysylltwch â Jane ar 029 2048 6050 neu e-bostiwch jane@playwales.org.uk

Hyfforddi Hyfforddwyr

Yn y rhifyn diwethaf o Chwarae dros Gymru fe wnaethom adrodd y byddai Gwaith Chwarae Cymru yn rhedeg cwrs City and Guilds (Lefel 3 'Introduction to Delivering Learning': 7302) i hyfforddi gweithwyr chwarae i ddod yn hyfforddwyr cymwysedig. Fe gwblhaodd y dysgwyr y cwrs yn ddiweddar – dyma rai o'u sylwadau:

'Roedd y lefel o gefnogaeth yn wych. Roeddwn i'n credu bod y tri hyfforddwr yn creu ffin gwych. Yn gyffredinol, roeddwn i'n meddwl [bod y cwrs] yn dda iawn a'r hyfforddwyr yn ardderchog.'



'Rwyf wedi mwynhau gweld fy natblygiad personol yn tyfu trwy gydol y cwrs. Mae fy ngwybodaeth wedi cynyddu'n aruthrol. Rwy'n teimlo'n hyderus i drosglwyddo P³.'

'Rwyf wedi mwynhau dysgu am arddulliau a dulliau addysgu, a mwy am waith chwarae! Rwyf wedi mwynhau'r tiwtoriaid, fu'n llawn hwy! ac ysbrydoliaeth, a chwrad â phobl gwych.'

Caiff y cwrs ei redeg eto'n hwyrach yn y flwyddyn. Os oes gennych ddi-ddordeb cael eich hyfforddi fel hyfforddwr gwaith chwarae, cysylltwch â mel@chwaraecymru.org.uk

Achrediad

Yn dilyn chwe blynedd o gynllunio a gwaith caled mae'r cysiau Gwaith Chwarae: Rhoi Egwyddorion ar Waith (P³) ar hyn o bryd yn mynd trwy broses achredu'r *Qualification Curriculum Authority*. Erbyn diwedd Mehefin byddwn wedi derbyn cadarnhad bod y cwrs, sydd ar hyn o bryd yn y broses o gael ei gymeradwyo gan SkillsActive, ar y fframwaith cymwysterau. Y *Scottish Qualification Authority* fydd y corff dyfarnu ar gyfer y cymhwyster P³.

Cadwch lygad am unrhyw ddatblygiadau newydd yn adran newyddion neu adran hyfforddiant gwefan Chwarae Cymru.

Mud & Sparks

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Mud & Sparks® wedi cael ei gofrestru fel nod masnach.

Cyfarfu grŵp o weithwyr chwarae, staff Chwarae Cymru a hyfforddwyr gwaith chwarae dros baned o goffi mewn canolfan chwarae yn Hirwaun nifer o flynyddoedd yn ôl a dyfeisio enw ar gyfer hyfforddiant newydd ar hwyluso chwarae gyda'r elfennau. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau Mud & Sparks® ers 2005 ac mae'r cysyniad bellach yn cael ei ddatblygu fel cyfle ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae hyfforddiant Mud & Sparks® yn rhoi cyfle i weithwyr chwarae brofi chwarae gyda daear, awyr, dŵr a than. Annogir cyfranogwyr i ystyried sut i ddatblygu cyfleoedd tebyg o fewn eu sefyllfaoedd chwarae eu hunain.



Chwarae yng Nghymru –

Ar Ddiwrnod Chwarae cenedlaethol 1996 mewn digwyddiad ym Mharc Fictoria, Caerdydd, bu grŵp o ymddiriedolwyr Chwarae Cymru'n lobio Wyn Griffiths AS am fwy o gefnogaeth wleidyddol i sefydliad chwarae allai eiriol dros hawl plant i chwarae yng Nghymru.



Noa, Owen, Rhiannon
a Tom – sy'n 10
mlwydd oed eleni

Roedd Chwarae Cymru'n bodoli ers rhai blynyddoedd ond roedd yn ei chael yn anodd i barhau o ddydd-i-ddydd. Roedd chwarae wedi cael ei ddileu o'r agenda wleidyddol. Gwelwyd toriadau a chau nifer o ddarpariaethau chwarae'n ystod y 1980au a'r 1990au ... Bu ymateb Wyn Griffiths yn ddechrau stori newydd yn hanes chwarae.

1998 Daeth Play Wales yn Play Wales/Chwarae Cymru a'i gofrestru fel elusen. Clustnododd y Swyddfa Gymreig gyllid cyfyngedig – oedd yn ddigon i gyflogi pedwar gweithiwr rhan amser – derbyniodd un ohonynt, Tony Chilton, y dasg o sefydlu swyddfa newydd yng Ngogledd Cymru.

Dim ond tri swyddog chwarae lleol oedd yng Nghymru – yn Sir y Fflint, Abertawe a Chaerdydd – a dau faes chwarae antur – yn Wrecsam a'r Rhyl.

1999 Sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol newydd i Gymru. Anerchodd y Prif Weinidog, Alun Michael, gynhadledd gyntaf Play Wales/Chwarae Cymru.

Cyhoeddodd Powys y strategaeth chwarae gyntaf yng Nghymru.

2000 Enillodd Chwarae Cymru gyllid i gyflogi Bob Hughes i reoli'r broses o ddatblygu fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer gwaith chwarae – gyda chymorth gweithwyr chwarae a hyfforddwy'r gwaith chwarae profiadol o bob cwr o Gymru.

Sefydlodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Grant Chwarae o £1m ar gyfer darpariaeth chwarae mynediad agored wedi ei staffio. Galwodd *The State of Play*, adroddiad ar

sut y gwariodd awdurdodau lleol y Grant Chwarae, am bolisi a strategaeth chwarae cenedlaethol.

2001 Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i benodi Comisiynydd Plant, Peter Clarke. Cymeradwyodd Peter y broses sicrhau ansawdd a ddatblygwyd yn ystod 2000 – ac a lanswyd gan Y Gweinidog dros Blant, Jane Hutt, fel *Yr Hawl Gyntaf ...* Am y tro gyntaf roedd fframwaith sicrhau ansawdd gwaith chwarae ar gael oedd yn canolbwyntio'n llwyr ar gwrdad ag anghenion chwarae plant. Cafodd ei ddilyn yn 2002 gan *Yr Hawl Gyntaf – prosesau dymunol*.

Cynhaliwyd y gynhadledd Ysbryd Chwarae Antur gyntaf yn Abergele.

2002 Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i fabwysiadu polisi chwarae cenedlaethol.

Cyhoeddodd *The Play Safety Forum: Managing Risk in Play Provision*.

2003 Derbyniodd Chwarae Cymru ariannu i gyflogi dau swyddog datblygu ychwanegol – un i gefnogi datblygu chwarae a'r llall i gefnogi datblygu'r gweithlu. Sefydlwyd rhwydwaith o swyddogion chwarae awdurdodau lleol a sector gwirfoddol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Y Wlad sy'n Dysgu: Cynnod Sylfaen 3-7 oed*, cynllun ar gyfer dysgu trwy chwarae ar gyfer plant ifainc.

Cafwyd dadl ar chwarae a darpariaeth chwarae yn Nhŷ'r Cyffredin. Arweiniodd Frank Dobson AS adolygiad trwy'r DU o ddarpariaeth chwarae.

Arianodd y fenter canolfan integredig newydd bob awdurdod lleol i sefydlu cyfleuster chwarae mynediad agored wedi ei staffio – yn seiliedig ar yr agwedd maes chwarae antur.



10 mlynedd

2004 Arweiniodd Chwarae Cymru adolygiad ac ymgynghoriad trwy'r DU ar Dybiaethau a Gwerthoedd ar gyfer Gwaith Chwarae – arweiniodd hyn at greu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae, cyfres o ddatganiadau sy'n dweud beth yw chwarae a'r hyn y mae gweithwyr chwarae'n ei wneud i'w gefnogi.

Dechreuodd y peilots Cyfnod Sylfaen mewn 41 o ysgolion.

Cafwyd ymgynghoriad ynghylch sut y dylid gwario ariannu prosiect y Loteri FAWR yng Nghymru – ymatebodd darparwyr chwarae yn llu – â chanlyniadau cadarnhaol. Lansiodd ymgynghoriad arall, ar argymhellion Grŵp Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru.

2005 Cyhoeddodd y Loteri FAWR £13m o ariannu i adeiladu isadeiledd chwarae yng Nghymru (cymdeithasau chwarae rhanbarthol) ac i ddatblygu prosiectau chwarae fel rhan o agwedd strategol.

Ffurfiwyd partneriaeth CWLWM. Dechreuodd Chwarae Cymru, fel partner, weithio ar gymhwyster gwaith chwarae newydd wedi ei seilio ar yr Egwyddorion Gwaith Chwarae ac *Yr Hawl Cyntaf* ...

2006 Lansiodd Cynllun Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Derbyniodd Chwarae Cymru gytundeb i gefnogi rhaglen Chwarae Plant y Loteri FAWR a bu'n bosibl cyflogi rhagor o swyddogion datblygu a staff cefnogol i ymestyn ei waith.

Ymdeolodd Tony Chilton, eiriolwr brwd dros chwarae plant yn y DU, wedi ei leoli yng Ngogledd Cymru, o'i waith gyda Chwarae Cymru.

2007 Ar Ddiwrnod Chwarae gwelwyd cyhoeddi ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer creu Canolfan Genedlaethol Cymru ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae i'w lleoli yn Chwarae Cymru.

Dyrwyd ariannu'r Loteri FAWR i brosiectau isadeiledd chwarae – sy'n golygu y bydd cymdeithas chwarae rhanbarthol ym mhob ardal o Gymru am y tro cyntaf.

Darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ariannu ychwanegol er mwyn i blant anabl gael mynediad i gyfleoedd chwarae.

2008 Fel rhan o Gynllun Gweithredu'r Polisi Chwarae mae'r gwaith wedi dechrau i ddatblygu cyfres o safonau ar gyfer darpariaeth chwarae yng Nghymru, ac i osod meincnod cyhoeddus ar risg a buddiannau mewn chwarae ...

Mae'r hyfforddiant gwaith chwarae newydd, a ddatblygwyd gan Chwarae Cymru fel rhan o bartneriaeth CWLWM, ar fin dod yn gymhwyster cydnabyddedig ...

Mae'r gwaith wedi dechrau o drefnu cynhadledd chwarae ryngwladol yng Nghymru yn 2011 ...

O ran chwarae plant beth sydd wedi newid dros y 10 mlynedd diwethaf ...

Medd Dominique Jones, Uwch-Reolwraig Partneriaeth, Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Powys:

'Ym 1998 roedd y diwylliant cymdeithasol o amgylch chwarae plant yn tyfu hyd yn oed yn fwy gochelgar, yn enwedig yng nghyd-destun chwarae yn yr awyr agored. Credaf fod hyn yn ymwneud yn rhannol â thrasiediau proffil uchel iawn oedd yn ymwneud â phlant a ddigwyddodd yng nghanol y 1990au, ond roedd yn ymwneud hefyd â thwf yn isadeiledd economaidd y wlad – grymoedd y farchnad rydd, menywod yn gweithio, oriau gweithio hirach i ddynton a menywod.

'Ers Deddf Plant 2004 gwelwyd newid mawr mewn meddylfryd – bellach mae anghenion plant o'r pwys mwyaf, ac mae'r rhai sy'n gyfrifol am lunio polisiau'n sylweddoli'n awr bod tystiolaeth eglur yn dangos y gall cael mynediad i gyfleoedd chwarae wella ystod o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant a phobl ifanc.

'Mae egwyddorion chwarae'n dal i fod yn berthnasol – ac mewn gwirionedd, o gael y cyfle, bydd plant yn dal i chwarae fel y maent wedi gwneud drwy'r oesoedd – mae rhai pethau'n goroesi dros amser a 'does dim modd eu newid'.

Dywed Brenda Davis, Rheolwraig Strategaeth Gofal Plant, Cyngor Sir Caerdydd:

'Yr hyn sydd wedi newid fwyaf dros y ddegawd diwethaf yw'r ddealltwriaeth wleidyddol o chwarae plant a'i bwysigrwyd i ddatblygiad plant yng Nghymru; yn enwedig y camau tuag at gonsensws ar draws y proffesiwn gwaith chwarae, Addysg y Blynyddoedd Cynnar ac Iechyd. Llam mawr iawn o deimlo mai chwarae yw'r perthynas fawr.

'Ond yr hyn sydd dal angen inni weithio arno fodd bynnag, yw y dylai chwarae fod yn sgil allweddol cyffredin o fewn unrhyw gymwysterau cyffredinol newydd ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant. Byddai'n hynod o ddefnyddiol pe bai'r gyfres newydd o gymwysterau sydd i'w datblygu ar gyfer y Fframwaith Cymwysterau cenedlaethol newydd, yn canolbwyntio ar y DU gyfan a'u bod yn drosglwyddadwy ar draws pedair gwlad Prydain'.

Dywed Malcolm King, OBE, Rheolwr Maes Chwarae Antur The Venture, Wrecsam:

'Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi arwain y byd yn ei gefnogaeth o chwarae. O'r diwedd, mae meysydd chwarae antur newydd i'w gweld yn cael eu creu. Ond mae'n rhaid inni ddod o hyd i fodd effeithiol o fynd i'r afael â'r agwedd obsesiynol / gymhellol tuag at risg gaiff ei harwain gan y cyfryngau a chyfreithwyr, sy'n niweidio plant a'u hawl i chwarae'.

10 statistics

- 71% of children prefer to play outside*
- 85% of children have somewhere with grass to play*
- 63% of children like going to the park to play*
- In 2006/7 **2531** children were admitted to A&E following bed falls – compared with 1067 who fell out of trees #
- There are **558,929** children in Wales
- Children who play more, especially outside, laugh up to twenty times more than children who play less~
- The distance that children can roam has been reduced by **90%** in the past twenty years~
- 66%** of children aged 8-10 have never been to a shop or park by themselves~
- 33%** of children aged 8-10 have never played outside without an adult~
- 37%** of children say that playtime is the best thing about school*

* *Why do people's ages go up not down?* report (Funky Dragon 2007)


Daily Mail, 14 April 2008

~The Daily Telegraph, 1 June 2008

‘ **Play is good for you because you make lots of friends** ’

‘ **Play is best when grownups aren't watching you ... we just run around and have fun** ’

‘ **If I could design my own playground I would have lots of trees and bushes** ’



10 calls for children's play for the next ten years

- Quality staffed play provision in every community where children need it.
- An approach to play provision that is sensitive to children's needs and local circumstances.
- Quality time and space for children to play in.
- A choice of local play opportunities that any child can access and join in.
- Health and Safety legislation that is fit for purpose for children's play.
- All school grounds made rich places for children's play.
- Sustainable long-term funding for play provision.
- A legal duty placed on local authorities to provide for children's play.
- The completion of all the plans in WAGPPIP and the start of a new national play strategy.
- For grown ups never to ignore or forget the fun, thrill and absorption of being a child playing.

‘ **It's important to play otherwise you'll probably get stiff and get bored actually ... I get bored if I don't play** ’



‘ **Playing is being adventurous** ’

‘ **If you're scared just try harder ... you can conquer your fear then** ’

‘ **Rwyf i'n hoffi chwarae yn y glaw** ’

‘ Mae chwarae’n dda i chi oherwydd ry’ch chi’n gwneud llawer o ffrindiau ;

‘ Mae chwarae’n well pan nad oes oedolion yn ein gwyllo ... ;

‘ Pe gallwn i gynllunio fy maes chwarae fy hun fe fyddwn i’n cynnwys llawer o goed a llwyni ;

10 o ystadegau

Mae’n well gan **71%** o blant chwarae’r tu allan*

Mae gan **85%** o blant rywle glaswelltlog i chwarae*

Mae **63%** o blant yn hoffi mynd i’r parc i chwarae*

Yn 2006/7 cafodd **2531** o blant eu derbyn i Adirannau Achosion Brys ysbŷtai wedi iddynt gwmpo o’r gwely – o’i gymharu â 1067 oedd wedi cwmpo allan o goed #

Mae **558,929** o blant yng Nghymru

Mae plant sy’n chwarae mwy, yn enwedig y tu allan, yn chwertthin hyd at ugain gwaith yn fwy na phlant sy’n chwarae llai~

Mae’r pellter y califf plant ryddid i grwydro wedi cael ei gwtogi **90%** yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf~

Mae **66%** o blant rhwng 8-10 oed nad ydynt erioed wedi bod i’r siop neu i’r parc ar eu pen eu hunain~

Mae **33%** o blant rhwng 8-10 nad ydynt erioed wedi chwarae y tu allan heb oedolyn~

Mae **37%** o blant yn dweud mai amser chwarae yw’r peth gorau am yr ysgol *

* *Adroddiad Pam Fod Oed Pobl Yn Mynd i Fyny Datim Lawr?* (Draig Ffynici 2007)

Daily Mail, 14 Ebrill 2008

~ The Daily Telegraph, 1 Mehefin 2008

‘ Rwyf i’n hoffi chwarae yn y glaw ;

‘ Os wyt ti’n ofnus, rho dro arni eto ... yna fe allai di oresgyn dy ofn ;

‘ Chwarae yw bod yn anturus ;

10 galwad ar gyfer chwarae plant ar gyfer y deng mlynedd nesaf

- Darpariaeth chwarae wedi ei staffio o safon ym mhob cymuned ble fo plant ei angen.
- Agwedd tuag at ddarpariaeth chwarae sy’n sensitif i anghenion plant ac amgylchiadau lleol.
- Amser a gofod o safon i blant chwarae.
- Dewis o gyfleoedd chwarae lleol y gall unifryw blentyn gael mynedad iddynt ac ymuno ynddynt.
- Deddfwriaeth lechyd a Diogelwch sy’n addas i’r pwrpas ar gyfer chwarae plant.
- Sicrhau bod tiroedd pob ysgol yn addas ar gyfer chwarae plant.
- Atiannu tymor hir cynaliadwy ar gyfer darpariaeth chwarae.
- Gosod dyletswydd cyfreithiol ar awdurdodau lleol i ddarparu ar gyfer chwarae plant.
- Cwblhau’r holl gynlluniau a geir yng Nghynllun Gweithredu Polisi Chwarae Llywodraeth Cynulliad Cymru a dechrau ar strategaeth chwarae genedlaethol newydd.
- I oedolion fyth anwybyddu nac anghofio’r hwyf a’r wefr a’r elfen o ymgall y bydd plentyn sy’n chwarae yn eu profi.

‘ Mae’n bwysig i chwarae, neu fel arall rydych chi’n debygol o gyffio a diflasu ... Rydw i’n diflasu os na fyddda’ i’n chwarae ;

